------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Mehefin 2018

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6363

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru


## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Cyflwyniad ar 'Persbectif Newydd ar Fframweithiau Cyffredin i'r Deyrnas Unedig: y cyfleoedd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yng Nghymru yn Gynaliadwy'

(09.30-10.20) (Tudalennau 1 - 53)

Dr Victoria Jenkins, Prifysgol Abertawe

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur: Persbectif Newydd ar Fframweithiau Cyffredin i'r DU

## 3 Ymchwiliad i fframweithiau cyffredin y DU ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd - y sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf

(10.20 - 11.10)

Steve Gibson, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Dr Roisin Willmott, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

Dylan Morgan, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Egwyl**

(11.10 – 11.20)

**4 Ymchwiliad i fframweithiau cyffredin y DU ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd – yr ail sesiwn dystiolaeth lafar**

(11.20 – 12.10)

Dr Viviane Gravey, Prifysgol Queens, Belffast

Karen Whitfield, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Rebecca Williams, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6 a'r cyfarfod ar 28 Mehefin**

**6 Trafod yr adroddiad byr drafft ar lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit a'r Flaenrhaglen waith**

(12.10 – 12.30) (Tudalennau 54 – 68)

Dogfennau atodol:

Adroddiad byr drafft

Blaenraglen Waith

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Briff Ymchwil:
## Persbectif Newydd ar Fframweithiau Cyffredin i'r Deyrnas Unedig: y cyfleoedd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yng Nghymru yn Gynaliadwy




www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7174**
E-bost: **Katy.Orford@assembly.wales**
Twitter: **@SeneddResearch**
Blog: **SeneddResearch.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Briff Ymchwil

## Persbectif Newydd ar Fframweithiau Cyffredin i'r Deyrnas Unedig: y cyfleoedd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yng Nghymru yn Gynaliadwy

**Awdur:** Dr Victoria Jenkins, Hillary Rodham Clinton School of Law
**Dyddiad:** Mehefin 2018
**Rhif yr ymholiad:** 18-041



Mae Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu cynllun cymrodoriaeth i alluogi academyddion ar lefel uwch yn eu gyrfa (ar ôl cwblhau PhD) i dreulio amser yn gweithio gyda staff y Cynulliad ar brosiect ymchwil penodol, pan fo hyn o fudd i'r academydd ac i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn y papur hwn mae **Dr Victoria Jenkins**, Darlithydd Cyswllt, Prifysgol Abertawe, Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, gyda chymorth ymchwil gan Caer Smyth, yn trafod y gofyniad am fframweithiau cyffredin rhwng y DU a llywodraethau datganoledig mewn meysydd polisi amgylcheddol ar ôl Brexit. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar bryderon strwythurol o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru, ac yn defnyddio hynny fel modd o ystyried effaith Fframweithiau Cyffredin i'r DU yn hyn o beth. Y bwriad yw y bydd y syniadau yn yr adroddiad hwn yn cael eu datblygu ymhellach gan ddod yn sail i erthygl academaidd.

Hoffai Victoria ddiolch i Rachel Sharp, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaethau Natur Cymru, a Karen Whitfield, Liz Smith a Maliha Majeed o Gyswllt Amgylchedd Cymru am gymryd yr amser i drafod y prosiect hwn. Barn yr awdur ei hun yw'r farn a fynegir ganddi ac nid yw'n cynrychioli barn y Gwasanaeth Ymchwil.

Bydd ffrwyth yr ymchwil hwn yn cyfrannu at waith ehangach y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Fframweithiau Cyffredin i'r DU.

# Cynnwys

**1. Crynodeb** .......... **1**

**2. Rhagarweiniad** .......... **3**

**3. Dyrannu Pŵer yn yr UE a'r DU** .......... **4**

**4. Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Heriau Llywodraethu Aml-lefel** .......... **7**

**5. Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru** .......... **10**

- Seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol a'r cyffiniau i wireddu manteision lluosog .......... 11
- Cynyddu gorchudd coetir a dod â mwy o'n coetiroedd presennol o dan reolaeth briodol .......... 12
- Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydrolegol .......... 14
- Rheoli pridd yn well .......... 15
- Defnyddio ein hucheldiroedd i ddarparu manteision lluosog .......... 16

**6. Casgliadau** .......... **18**

**Atodiad 1: Y Dadansoddiad Fframwaith a Rheoli Tir yn Gynaliadwy** .......... **21**

- Coedwigaeth .......... 21
- Ansawdd a rheolaeth dŵr .......... 21
- Bioamrywiaeth .......... 22
- Newid yn yr Hinsawdd .......... 22
- Asesiad Amgylcheddol Strategol, EIA a Defnydd Tir .......... 22
- Amaethyddiaeth .......... 23

**Atodiad 2: Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Sybsidiaredd yn yr UE ........ 24**

Cydberthynas a'r Aelod-wladwriaethau ........ 24

Sybsidiaredd a'r Llys Cyfiawnder ........ 24

Sybsidiaredd a'r Comisiwn Ewropeaidd ........ 25

**Atodiad 3: Gweithredu'r Gyfarwyddeb EIA yng Nghymru a Lloegr ........ 26**

Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr ........ 26

Lloegr ........ 26

Cymru ........ 26

Cymru a Lloegr ........ 26

# 1. Crynodeb

Bydd gan Brexit **oblygiadau sylweddol (PDF 201KB)** o ran diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Cynhaliwyd y bleidlais ar adael yr Undeb Ewropeaidd yn fuan ar ôl cyflwyno fframwaith newydd yng Nghymru ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'n hanfodol nad yw proses Brexit yn ymyrryd ag uchelgais Cymru yn hyn o beth. Un o'r heriau allweddol a gyflwynir gan Brexit yw sut i ddarparu ar gyfer dyrannu'r pwerau sydd gan yr UE ar hyn o bryd ymhlith llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mewn cyfarfod o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar 16 Hydref 2017, cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar set o egwyddorion sy'n llywodraethu sut y caiff Fframweithiau Cyffredin i'r Deyrnas Unedig eu sefydlu (**Datganiad y Cyd-bwyllgor** (PDF 72KB)). Dywed y datganiad y caiff fframweithiau eu sefydlu er mwyn:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, ond gan gydnabod gwahaniaethau polisi;
- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- sicrhau y gall y DU drafod cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol newydd, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith;
- galluogi rheoli adnoddau cyffredin;
- gweinyddu a darparu mynediad at gyfiawnder mewn achosion sydd ag elfen drawsffiniol; a
- gwarchod diogelwch y DU.

Ar 9 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU amlinelliad o'r meysydd lle mae'n rhagweld fframweithiau cyffredin ar lefel y DU (**y Dadansoddiad Fframwaith**). Mae cynigion cyfredol Llywodraeth y DU ar gyfer fframweithiau cyffredin yn canolbwyntio ar bryderon gwleidyddol a masnach. Serch arwyddocâd y safbwyntiau ehangach hyn, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pryderon strwythurol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel modd i ystyried goblygiadau Fframweithiau Cyffredin i'r DU. Er hwylustod, Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw cyd-destun yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yn dadlau mai'r egwyddor arweiniol briodol er datblygu Fframweithiau Cyffredin i'r DU yn y maes hwn yw 'diogelu adnoddau naturiol'. Datblygir ac eglurir y ddadl hon drwy gyfeirio at y fframweithiau presennol yng nghyfraith yr UE i ddiogelu'r amgylchedd, a'r ffordd y maen nhw'n gweithredu ar hyn o bryd i gefnogi cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng

Nghymru. Drwy ganolbwyntio ar 'ddiogelu adnoddau naturiol' gwelir rhinweddau cydweithio i greu Fframweithiau Cyffredin i’r DU o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dylid defnyddio'r rhain i ddatblygu targedau, safonau ac, yn hollbwysig, arferion rheoli yn hyn o beth. Dylai'r broses hon hefyd gael ei chefnogi gan fframwaith sefydliadol i ddatblygu 'gwybodaeth ecosystemau'. Mae 'gwybodaeth ecosystemau' yn cynnwys nid yn unig ddatblygiadau gwyddonol ond 'gwybodaeth leol' a phrofiad o arfer rheoli. Felly, bydd cyfnewid syniadau ynglŷn â'r maes olaf hefyd yn bwysig.

Bydd rôl y llywodraethau datganoledig yn hanfodol yn cyfrannu at ddatblygu 'gwybodaeth ecosystemau' a chytuno ar baramedrau Fframweithiau Cyffredin i’r DU. Rhaid i'r llywodraethau datganoledig, felly, gael y disgresiwn i ddatblygu ffyrdd arloesol o reoli ar lefel fwy lleol. Bu Cyfarwyddeb yr UE yn offeryn cyfreithiol defnyddiol yn creu cydbwysedd gofalus rhwng cytundeb ar dargedau craidd, safonau ac egwyddorion hanfodol arferion rheoli a chaniatáu disgresiwn ar yr un pryd i Aelod-wladwriaethau wrth iddynt gyflawni’r amcanion hynny. Felly, dadleuir, bydd angen fframwaith cyfreithiol yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau cydraddoldeb â deddfau presennol yr UE o ran diogelu'r amgylchedd. Bydd cymhwyso’r drefn a argymhellir yn yr adroddiad hwn i'r meysydd hynny a restrwyd yn Nadansoddiad Fframwaith Llywodraeth y DU, sy'n ymwneud â rheoli tir yn gynaliadwy, yn arwain at gynnig fframwaith cyfreithiol yn y rhan fwyaf o’r meysydd (gweler Atodiad 1).

Bydd goblygiadau sylweddol yn wleidyddol ac o ran adnoddau yn deillio o'r cynigion hyn a bydd effaith unrhyw Fframwaith Cyffredin i’r DU ar fasnach bob amser yn ystyriaeth bwysig. Fodd bynnag, mae'r persbectif hwn yn help i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n angenrheidiol i yrru agenda uchelgeisiol Cymru o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei blaen. Mae'n tynnu sylw at yr angen am gydweithio llawn rhwng y gwladwriaethau datganoledig wrth greu Fframweithiau Cyffredin i’r DU a'r angen am fframwaith sefydliadol i gefnogi’u datblygiad yn y dyfodol. Gall yr adroddiad hwn fod yn sail i drafodaethau cyfredol ynghylch egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu ar ôl Brexit. Mae'r drefn a argymhellir yn awgrymu y dylai Fframweithiau Cyffredin y DU gael eu seilio ar egwyddorion amgylcheddol craidd. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng y 'bwlch' llywodraethu sy'n deillio o Brexit (yn ymwneud ag atebolrwydd a gorfodi'r gyfraith) a'r bwlch sy’n bodoli o ran datblygu fframweithiau cyfreithiol y dyfodol. Dim ond y cam cyntaf yw cytuno ar Fframweithiau Cyffredin y DU ar y diwrnod ymadael. Bydd y broses o ddatblygu'r fframweithiau hynny yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn diogelu'r amgylchedd a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy yng Nghymru.

# 2. Rhagarweiniad

Bydd gan Brexit oblygiadau sylweddol o ran diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Serch hynny, safbwyntiau gwleidyddol ac economaidd sy’n dominyddu’r dadleuon ar hyn o bryd. Mae Bil Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd wedi codi pryder ymhlith y gwledydd datganoledig ynglŷn â’r effaith a gaiff dychwelyd pwerau'r Undeb Ewropeaidd (UE) i’r DU ar y setliad datganoli. Yn y cyfamser, mae’r drafodaeth yn y cyfryngau hefyd yn canolbwyntio ar berthynas fasnachu’r DU â'r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol. Ar ôl i'r DU adael yr UE, cynigir y bydd y ffordd o ddyrannu’r pwerau presennol yn cael ei harwain gan yr egwyddorion yn Natganiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, a gyhoeddwyd gan y partïon i gyd. Wrth gymhwyso'r egwyddorion hyn, mae Llywodraeth y DU wedi creu Dadansoddiad Fframwaith dros dro o fesurau cyfredol yr UE ac wedi nodi ymhle mae hi'n credu y gallai fod angen gweithredu cyffredin drwy gyfraith neu bolisi. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi unrhyw eglurhad o ran sut mae'r 'egwyddorion' hyn wedi'u cymhwyso ac mae trafodaethau’n parhau rhwng y llywodraethau ynglŷn â chategori meysydd polisi.

Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio'r cyfleoedd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ddatblygu Fframweithiau Cyffredin i’r DU ar Reoli Tir yn Gynaliadwy. Cynhaliwyd y bleidlais ar adael yr Undeb Ewropeaidd yn fuan ar ôl cyflwyno fframwaith newydd yng Nghymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n hanfodol nad yw proses Brexit yn ymyrryd ag uchelgais Cymru yn hyn o beth. Mae safbwyntiau gwleidyddol ac economaidd yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Gall cytundebau masnach gynnwys gofynion manwl i ddiogelu'r amgylchedd, o gofio'r angen i sicrhau 'maes chwarae gwastad' mewn cyd-destun economaidd; ac mae i ba raddau y mae'r DU a’r llywodraethau datganoledig wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd **yn amlwg yn berthnasol (PDF 1.8KB)**. Serch hynny, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pryderon strwythurol o safbwynt amgylcheddol fel sail i’r dadleuon cyfredol ar Fframweithiau Cyffredin i’r DU.

Mae'r adroddiad yn dechrau drwy amlinellu’r dulliau cyfredol o ddyrannu pŵer yn yr UE, yn ôl egwyddor sybsidiaredd, ac, yn y DU, yr egwyddorion a nodir yn Natganiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion. O edrych ar heriau llywodraethu aml-lefel o safbwynt rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, disgrifir ac eglurir tri phrif bryder: natur draws-ffiniol ffisegol problemau amgylcheddol; ei arwyddocâd fel mater sy’n croesi ffiniau polisi; a natur draws-ffiniol yr heriau hyn o ran gofynion gwybodaeth o safbwynt gwyddoniaeth a chymdeithas. Ystyrir y ffordd yr

ymdriniwyd â'r pryderon hyn yn yr UE ac yn Natganiad y Cyd-bwyllgor cyn cyflwyno'r ddadl o blaid egwyddor ganolog o 'ddiogelu adnoddau naturiol'.

Mae prif gorff yr adroddiad yn amlinellu'r ffordd yr ymdrinnir â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd er mwyn gwneud cynnydd yma. Yna, mae'n esbonio sut mae dulliau llywodraethu cyfredol aml-lefel, yn cynnwys deddfwriaeth yr UE, yn effeithio ar y meysydd hyn. Mae hyn yn cynnwys ystyried rôl: targedau; safonau; dulliau rheoli; a phrosesau ar gyfer cyfnewid a datblygu 'gwybodaeth'. Daw'r papur i ben drwy ystyried sut y gall yr enghreifftiau gyfrannu at drafodaethau cyfredol ynghylch Fframweithiau Cyffredin i’r DU ac efallai yr awgrymir trefn wahanol i’r un sy’n cael ei hargymell gan Lywodraeth y DU yn y Dadansoddiad Fframwaith ar hyn o bryd.

# 3. Dyrannu Pŵer yn yr UE a'r DU

Wrth galon y cysyniad o lywodraethu aml-lefel mae'r syniad fod gweithredu ar draws lefelau gwahanol o lywodraeth - rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, er enghraifft - yn fwy effeithlon na dibynnu ar weithredu gan wladwriaethau yn unig.[1] Mantais system lywodraethu aml-lefel yw ei bod yn cyfuno dulliau strategol a mwy datganoledig. Mae cyfeiriad strategol yn bwysig i gael arbedion maint a gall fynd i'r afael â ‘gorgyffwrdd’, lle mae gweithredu mewn un maes polisi yn effeithio ar faes arall ar raddfa ofodol wahanol. Ond, mae dulliau mwy lleol yn gallu ymateb yn well i amodau yn y gymuned, caniatáu ar gyfer dulliau cyfranogol a rhoi mwy o atebolrwydd i ddinasyddion.

Mae yna wahanol fathau o lywodraethu aml-lefel. Yn yr UE, mae’r ffocws ar weithredu gan yr UE a llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau; yn y DU bydd y ffocws ar weithredu llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mewn unrhyw system o lywodraethu aml-lefel, rhaid bod modd dyrannu pŵer rhwng gwahanol lefelau llywodraeth. Gellir edrych ar y dyrannu pŵer o safbwynt gwleidyddol neu o safbwynt gweithredol – er enghraifft, pryderon economaidd ynghylch 'effeithlonrwydd'.

Yn yr UE, bu egwyddor sybsidiaredd ar waith, er 1992, i fynd i'r afael â'r her hon. **Yn ôl yr egwyddor**, dim ond os na fydd modd i amcanion y gweithredu arfaethedig gael eu cyflawni’n ddigonol gan yr aelod-wladwriaeth, neu i’r graddau na fyddai

1 Mae'r cysyniad hwn hefyd yn cynnwys cyfeiriad at yr angen i weithredu nid yn unig fel llywodraethau, ond gydag eraill nad ydynt yn wladwriaethau, megis busnesau a sefydliadau anllywodraethol. Nid oes digon o le i ystyried yr agwedd hon ar lywodraethu aml-lefel yn yr adroddiad hwn.

hynny'n digwydd, y bydd yr Undeb yn gweithredu, un ai ar lefel ganolog neu ar lefel ranbarthol a lleol, ac y byddai'r amcanion, oherwydd graddfa neu effeithiau'r gweithredu arfaethedig, yn cael eu cyflawni'n well ar lefel yr Undeb. Mae'r egwyddor hon yn arwain Comisiwn yr UE wrth iddo gynnig deddfwriaeth ac, fel egwyddor gyfreithiol, gellir galw arni yn Llys Ewrop i herio deddfwriaeth. Mae mecanweithiau eraill hefyd yn bodoli i ganiatáu i seneddau cenedlaethol ddal sefydliadau'r UE i gyfrif mewn perthynas â'r egwyddor hon.

Yn yr UE, cafodd egwyddor sybsidiaredd ei chyflwyno mewn ymateb i bryderon gwleidyddol ynglŷn â cholli sofraniaeth o aelod-wladwriaethau i'r UE. Roedd sybsidiaredd yn gonsyrn arbennig o ran gwarchod yr amgylchedd yn yr UE, oherwydd gellid dadlau fod camau wedi'u cymryd yn y maes hwn ar y dechrau heb sylfaen gyfreithiol benodol. Cyflwynwyd cyfreithiau amgylcheddol o dan ddarpariaethau'r farchnad fewnol oherwydd pryderon ynglŷn ag effaith gwahanol ddulliau aelod-wladwriaethau o ymdrin â chysylltiadau masnachu. Mae hyn yn parhau i fod yn gonsyrn pwysig. Serch hynny, heddiw, yr amcan cyffredinol yw sicrhau 'lefel uchel o amddiffyniad amgylcheddol' yn unol â nifer o egwyddorion amgylcheddol.[2]

Mae'r UE wedi cael cryn anhawster i gael y cytundeb angenrheidiol i gyflwyno Cyfarwyddebau, fel y **Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (PDF 600KB)** yn yr 1980au ac, yn fwy diweddar, ddiwedd yr 1990au, y **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (PDF 858KB)**. Ar y llaw arall, mae'r UE wedi cyflwyno cyfoeth o gyfreithiau UE ar ddiogelu'r amgylchedd ac ychydig iawn o ymdrechion fu yna i herio hyn un ai'n wleidyddol neu'n weithredol gerbron y Llys Cyfiawnder (gweler Atodiad 2).

Mae cyfiawnhad yr UE dros weithredu ym maes diogelu'r amgylchedd yn ddefnyddiol wrth ystyried y drafodaeth ynglŷn â Fframweithiau Cyffredin i'r DU ar hyn o bryd. Mae'r dadleuon o blaid gweithredu gan yr UE fel a ganlyn:

- cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- pryderon trawsffiniol
- pryderon traws-bolisi (hy, yr angen i ymdrin yn strategol â mater y mae polisïau eraill yn effeithio arno). Mae'r ddadl hon wedi ennill pwysau cynyddol wrth i gymhwysedd yr UE dyfu; a
- yr angen i ymyrryd er budd diogelu'r amgylchedd lle nad yw'r aelod-wladwriaethau eu hunain wedi gweithredu (gweler Atodiad 2).

2 Erthygl 191 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

Wrth i'r DU adael yr UE, cynigir y bydd dyraniad y pwerau presennol yn cael ei arwain gan yr egwyddorion yn Natganiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, a gyhoeddwyd gan y partïon i gyd.

Mae'r egwyddorion yn y Datganiad sy'n berthnasol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn canolbwyntio ar bryderon ynglŷn â masnach a pharhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau o dan gytundebau rhyngwladol. Maent hefyd yn sôn am 'reoli adnoddau cyffredin', cyfeiriad at bryderon trawsffiniol yn ymwneud ag aer a dŵr. Mae'r angen i gynnal cymhwysedd cyfredol sefydliadau datganoledig hefyd yn allweddol. Yn wir, mae'n nodi'n benodol mai'r nod fydd cynyddu'u pwerau nhw i wneud penderfyniadau yn sylweddol. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r egwyddor sybsidiaredd sy'n weithredol yng nghyd-destun yr UE, drwy gynnwys rhwymedigaeth gadarnhaol i sicrhau bod y gwledydd datganoledig yn cael mwy o bŵer dros feysydd polisi sy'n cael eu llywodraethu ar hyn o bryd gan yr UE. Yn ogystal, mae Datganiad y Cyd-bwyllgor yn nodi, lle mae fframweithiau cyffredin i'r DU yn bodoli, y cânt eu creu gan gydnabod pwysigrwydd cynnal, fel gofyniad lleiaf, y lefelau presennol o hyblygrwydd a ddarperir yn rheolau'r UE i ganiatáu teilwra polisïau i anghenion pob rhanbarth.

Mae egwyddor sybsidiaredd a Datganiad y Cyd-bwyllgor wedi nodi'r egwyddorion gwleidyddol sy'n llywodraethu sut y caiff pwerau eu dyrannu rhwng y llywodraethau perthnasol ac yn mynd i'r afael â rhai pryderon gweithredol. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried sut maen nhw'n gweithio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Dulliau Strategol yn erbyn Dulliau Datganoledig

| | Cyffredinol | Amgylcheddol |
|---|---|---|
| **Dull strategol** | Arbedion maint | Datblygu gwybodaeth wyddonol |
| | Gorlifo | Trawsffiniol<br>Ymatebion trawsffiniol |
| **Dull datganoledig** | Ymatebol | Ymatebion traws-bolisi |
| | Atebol | Arbrofi |
| | | Gwybodaeth leol |
| | | Cyfranogiad |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 4. Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Heriau Llywodraethu Aml-lefel

Gall llywodraethu aml-lefel helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol am sawl rheswm.[3] Yn gyntaf, mae problemau amgylcheddol yn aml yn croesi ffiniau mewn ystyr ffisegol ac mae a wnelont ag adnoddau cyffredin, fel yr aer a'r cefnforoedd. Yn ail, mae problemau amgylcheddol yn gofyn am ymatebion traws-bolisi. Yn drydydd, mae 'gwybodaeth ecosystemau' yn hanfodol er mwyn deall heriau amgylcheddol sydd hefyd yn groesffiniol yn yr ystyr bod rhaid roi cyfrif amdanynt o safbwynt gwybodaeth wyddonol a safbwyntiau cymdeithasol. Mae 'gwybodaeth ecosystemau' yn ymwneud yn bennaf â datblygiadau gwyddonol sy'n gwella'n dealltwriaeth o ecosystemau, ond mae hefyd yn bwysig cydnabod arwyddocâd 'gwybodaeth' ymarferwyr a rhanddeiliaid o ecosystemau ac arferion rheoli effeithiol. Gall **dulliau llywodraethu aml-lefel** gynorthwyo yn y broses hon drwy:

3 Cyfeirir at y materion hyn yma fel trawsffiniol, traws-bolisi a thraws-ffin o ran 'gwybodaeth'. Mae'r gwahaniaethau hyn wedi'u hysbrydoli gan yr esboniad o 'gymhlethdod systemig' cyfraith amgylcheddol yn Environmental Law: Text Cases and Materials (OUP, 2013), 23-32, gan Elizabeth Fisher, Bettina Lange ac Eloise Scotford.

(i) cefnogi cydweithio gwyddonol ar lefel strategol; a (ii) creu gweithdrefnau ailadroddol i sicrhau bod gwybodaeth o ecosystemau ac arferion rheoli ar wahanol raddfeydd gofodol yn sail i weithredu strategol.[4] Felly, bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw ddull strategol yn caniatáu disgresiwn i fabwysiadu technegau arloesol ar lefelau llywodraethu is. Mae'r drefn hon yn amlwg yn system rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy Cymru (a drafodir isod) i'r graddau y mae gwybodaeth wyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru a'r wybodaeth a fagwyd drwy waith Rheoli Ardal yn dylanwadu ar Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.[5]

Mae mynd i'r afael â materion trawsffiniol yn ganolog i'r dull o ddyrannu pŵer yn yr UE ac yn Natganiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion. Roedd yr angen i fynd i'r afael â phryderon traws-bolisi yn gyfiawnhad canolog i weithredu'r UE yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn hefyd yn bwysig wrth gyfiawnhau gweithredu gan lywodraethau datganoledig yn y maes hwn o gofio bod ganddynt bwerau sylweddol ar draws ystod o feysydd polisi perthnasol. Fodd bynnag, mae datblygu a chyfnewid 'gwybodaeth ecosystemau' hefyd yn hanfodol wrth ymateb i'r materion cymhleth ac anodd sy'n codi yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r adroddiad hwn yn dadlau y bydd cydweithio ar lefel y DU yn hanfodol yn hyn o beth ac y dylai Fframweithiau Cyffredin i'r Deyrnas Unedig gefnogi dealltwriaeth a rennir o'r camau mwyaf priodol i'w cymryd ar sail y 'wybodaeth ecosystemau' sydd gennym ar y pryd.

Yn yr UE, mae i bolisi amgylcheddol nod cyffredinol, sef 'lefel uchel o amddiffyniad amgylcheddol'. Dim ond ar ôl sefydlu bod unrhyw weithredu yn unol ag egwyddor sybsidiaredd y caiff hyn ei ystyried. Serch hynny, mae'r UE wedi datblygu fframwaith cynhwysfawr o amddiffyniad amgylcheddol a adeiladwyd ar system sy'n cydnabod cyfraniad llywodraethu aml-lefel wrth ymateb nid yn unig i bryderon trawsffiniol a chroes-bolisi, ond y gofynion i ddatblygu a chyfnewid 'gwybodaeth'. Felly, er mwyn cynnal y lefelau presennol o amddiffyniad amgylcheddol, gellir dadlau y dylai 'diogelu adnoddau naturiol' gael ei weld fel nod a rennir ymysg gwledydd y DU ac yn egwyddor allweddol yn Fframweithiau Cyffredin y DU ym maes rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

---

4 Dyma farn yr awdur a ddatblygwyd o'i gwaith diweddar ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, Victoria Jenkins Sustainable Management of Natural Resources: Lessons from Wales Journal of Environmental Law (2018). Ysbrydolwyd hyn, yn arbennig, gan waith Olivia Woolley Ecological Governance: Reappraising Law's Role in Protecting Ecosystems Functionality (Cambridge University Press, 2014).


5 Er bod yr awdur wedi awgrymu nad yw natur ailadroddol y broses yn cael ei chefnogi yn y fframwaith cyfreithiol (ibid).

Mae'r ystod o offerynnau yn neddfau'r UE, y gellid eu cadw a'u datblygu'n Fframweithiau Cyffredin i'r DU er mwyn 'diogelu adnoddau naturiol', yn cynnwys:

- targedau
- safonau;
- dulliau rheoli; a
- phrosesau ar gyfer casglu gwybodaeth a darparu adroddiadau i helpu i ddatblygu gwybodaeth wyddonol ac arfer gorau.

Ar hyn o bryd mae rôl Fframweithiau Cyffredin i'r DU wrth greu 'safonau' amgylcheddol yn dominyddu'r ddadl yn y maes hwn. Mae'r sylw i safonau yn cael ei yrru, i ryw raddau, gan y canolbwyntio ar bryderon masnach. Adlewyrchir hyn yng nghynigion Llywodraeth y DU ar gyfer fframweithiau rheoleiddio o dan y Dadansoddiad Fframwaith. Fodd bynnag, nid creu targedau a safonau syml y mae llawer o Gyfarwyddebau amgylcheddol yr UE, ond amlinellu nodweddion allweddol dulliau rheoli mewn meysydd penodol, weithiau gan gyfeirio at yr egwyddorion amgylcheddol craidd. Maent yn gwneud hynny un ai drwy gyfeirio'n syml at yr angen am system 'effeithiol' neu, yn amlach, drwy nodi'r prif feini prawf i'w dilyn. Gall hyn gynnwys:

- nodi meysydd blaenoriaeth neu risg uchel, yn gyffredinol ac mewn meysydd polisi penodol;
- asesiad blaenorol / asesiad risg o effaith bygythiadau posibl i reoli adnoddau naturiol, yn gyffredinol ac mewn meysydd polisi penodol; a
- fframwaith ar gyfer cynllunio a rheoli mewn meysydd polisi penodol.




Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 5. Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru

Bydd rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru yn golygu meithrin yr amgylchedd naturiol i sicrhau y gall y wlad gyflawni ei hamcanion o ran arfer amaethyddol a choedwigaeth, yn ogystal â chymunedau gwledig bywiog, sector twristiaeth cryf a rheoli dŵr yn effeithiol. Gan ganolbwyntio ar adnoddau naturiol, dangosyddion allweddol iechyd ein hamgylchedd naturiol a chryfder ein harferion rheoli tir yn gynaliadwy yw:

- ansawdd dŵr afonydd;
- ansawdd y pridd
- cyflwr cynefinoedd 'arbennig'; a
- chynaliadwyedd coedwigaeth.

Mae'r bygythiadau allweddol i'r agweddau hyn ar iechyd yr amgylchedd naturiol yn deillio o:

- newid yn yr hinsawdd
- arfer amaethyddol;
- datblygiadau eraill;
- rhywogaethau ymledol; ac
- ymddygiad unigol.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi creu fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n golygu rhoi **Polisi Adnoddau Naturiol** Cyfoeth Naturiol Cymru ar waith drwy ddull seiliedig ar ardaloedd y cyfeirir ato fel Rheolaeth Ardal. Mae'r polisi wedi'i seilio ar wybodaeth am yr heriau a'r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru mewn **Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** a grëwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu Rheolaeth Ardal, ond mae wedi cynnal tri Threial Ardal i helpu i ddatblygu'r ddeddfwriaeth. Seiliwyd y **Treialon Ardal** o gwmpas basnau afonydd Dyfi, Tawe a Rhondda.

Nodwyd y prif gyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru yn SoNaRR ac, ynghyd â thystiolaeth o'r Treialon Ardal, gall roi cipolwg inni ar hyn. Mae'r angen i ddiogelu bioamrywiaeth fel elfen ganolog o gydnerthedd ecosystemau yn berthnasol i'r holl gyfleoedd hyn. Ond er mor bwysig yw amrywiaeth rhywogaethau, er hwylustod bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 'gynefinoedd gwarchodedig'.[6]

## Seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol a'r cyffiniau i wireddu manteision lluosog

Mae i seilwaith gwyrdd fanteision lluosog, ond mae'n arbennig o bwysig wrth fynd i'r afael ag ymddygiad unigolion. Ar y naill law, mae'r difrod y mae unigolion yn ei achosi yn yr amgylchedd naturiol yn fach iawn o'i gymharu â, er enghraifft, newid hinsawdd neu arfer amaethyddol. Ar y llaw arall, gellir dadlau bod cysylltu

6 Mae'r term 'cynefinoedd gwarchodedig' yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddynodwyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE. Mae hyn yn golygu na thrafodir cyfraith yr UE ar rywogaethau ymledol, ond nid yw hyn yn tanseilio'i harwyddocâd nac yn golygu bod ei habsenoldeb nodedig o'r Dadansoddiad Fframwaith yn llai pwysig.

cymunedau â'u hamgylchedd lleol yn bwysig er helpu cymdeithas i werthfawrogi adnoddau naturiol a newid ymddygiad. At hynny, cydnabyddir yn gynyddol fod mynediad i'r amgylchedd naturiol **yn bwysig i iechyd a lles**. Roedd hwn yn bryder arbennig, er enghraifft, yn **nhreial y Rhondda** lle nodwyd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr amgylchedd naturiol nid yn unig yn niweidiol yn gorfforol, ond ei fod yn gallu creu rhwystr i ymgysylltu ehangach.

Mae mynediad i dir yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac yn un lle gellir mabwysiadu dulliau gwahanol iawn.7 Yn benodol, mae'n dibynnu ar y cydbwysedd rhwng hawliau preifat i dir a'r budd cyhoeddus o fwynhau cefn gwlad. Ar hyn o bryd, drwy ddulliau cyfnewid anffurfiol y ceir tystiolaeth o arfer da. Cyflwynir cyfreithiau sy'n rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr amgylchedd naturiol, megis tanau mewn coedwigoedd a thipio anghyfreithlon, ar sail Cymru a Lloegr yn bennaf o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 hithau yn darparu troseddau am ddifrod i 'gynefinoedd gwarchodedig' a gyflawnir gan unigolion, a hwythau un ai'n gwybod am statws y safle neu mewn anwybodaeth ohono. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol yn faes nad oes sylw digonol wedi'i roi iddo. Yn y dyfodol, efallai y bydd modd datblygu dulliau newydd, ond gan fod Cymru'n rhan o awdurdodaeth a rennir â Lloegr, bydd cyfyngiadau arni yn hynny o beth. Yn fwy cyffredinol, efallai y gellid dadlau o blaid system datblygu a chyfnewid gwybodaeth fwy ffurfiol yn y maes hwn, gyda chymorth fframwaith sefydliadol. Gallai colli Cronfeydd Strwythurol yr UE, megis prosiectau Amgylchedd ar gyfer Twf a gefnogwyd gan Gronfa Cydgyfeirio Ewrop yn 2006-2013, fod yn arwyddocaol yn y cyd-destun hwn.

## Cynyddu gorchudd coetir a dod â mwy o'n coetiroedd presennol o dan reolaeth briodol

Mae coedwigo a rheoli coetiroedd yn gynaliadwy yn arbennig o bwysig wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ansawdd afonydd a phridd. Mae coetiroedd yn rhan bwysig o'r amgylchedd naturiol yng Nghymru ac roeddent yn gonsyrn arbennig ar draws y Treialon Ardal.

Nid yw'n amlwg fod rheoli coedwigoedd yn fater sy'n gofyn am ddull llywodraethu aml-lefel, ond yng **Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu** cytunwyd ar set o egwyddorion coedwigaeth. Yn yr un modd, nid yw'r UE yn rheoleiddio coedwigaeth yn uniongyrchol, ond mae ganddo **strategaeth**

7 Gweler, er enghraifft, y gwahanol ddulliau yng Nghymru a'r Alban o dan Ddeddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

**polisi (PDF 164KB)** a chynllun gweithredu wedi'u seilio ar gynyddu gorchudd coetir a rheolaeth fwy cynaliadwy.[8] Mae gan yr UE strwythur llywodraethu hefyd i gefnogi darparu gwybodaeth dechnegol a darparu fforwm trafod.[9]

Yn y DU, mae strwythur datganoledig o ran llywodraethu coedwigaeth gyda Chomisiwn Coedwigaeth yr Alban, Comisiwn Coedwigaeth Lloegr a Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar y llaw arall, mae **Safon Coedwigaeth y DU (PDF 31MB)** yn berthnasol i goedwigaeth gyhoeddus a phreifat ar draws y pedair gwlad.[10] Mae hyn yn bwysig o ran: nodi'r dull o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy; diffinio safonau a gofynion; a darparu sail ar gyfer rheoleiddio, monitro ac adrodd. Mae cydymffurfio yn dystiolaeth fod cwmni neu awdurdod cyhoeddus wedi cyflawni'i ofynion cyfreithiol a'i fod yn gweithredu'n gynaliadwy. **Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn honni (PDF 31MB)**:

> The UKFS has been developed by the forestry authorities in England, Scotland, Wales and Northern Ireland, through an open and consensual process in accordance with government guidance. This has involved many interested parties and the general public in a formal consultation.

Mae arfer coedwigaeth yn y DU hefyd yn cael ei gefnogi gan **Forest Research** sy'n gweithredu ar draws y gwledydd datganoledig i ddatblygu gwybodaeth am reoli coedwigaeth.

Er gwaethaf diffyg fframwaith rheoleiddio ar gyfer coedwigaeth ar lefel yr UE neu'r DU, mae gan yr UE ganllawiau polisi a chan y DU drefn wedi'i seilio ar safonau a ddatblygwyd gan y rheoleiddwyr sydd wedi creu mecanwaith ymchwil sefydliadol i gefnogi hyn.

8Mae a wnelo unig ddeddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol i goedwigaeth â gwerthu coed anghyfreithlon yn yr UE ac atal tanau coedwig.

9 Y Pwyllgor Sefydlog ar Goedwigaeth yw'r prif fforwm ar gyfer trafod materion coedwigaeth ac mae'n darparu ar gyfer cydgysylltu a chydlynu'r polisi coedwigaeth. Mae'n gweithio gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Goedwigaeth a Chorc sy'n llwyfan aml-randdeiliaid ar gyfer trafod materion yn ymwneud â choedwigaeth a rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy a'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ddiwydiannau Coedwig sy'n parhau i fod yn llwyfan ar gyfer materion yn ymwneud â chadwynau gwerth diwydiannol.

10 The UK Forestry Standard: the Government's Approach to Sustainable Forestry (Comisiwn Coedwigaeth Lloegr, Comisiwn Coedwigaeth yr Alban, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Coedwigaeth, 2017)

## Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydrolegol

Canfuwyd bod adeiladu ar orlifdiroedd, draenio cynaliadwy a rheoli dalgylchoedd yn destun pryder arbennig o ran ansawdd dŵr. Seiliwyd y Treialon Ardal ar yr ardaloedd a oedd wedi'u dynodi at ddibenion rheoli basn afon dan reolau cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Effeithir ar **ansawdd afonydd yng Nghymru** gan hen fwyngloddiau, tir halogedig, asideiddio ac arfer coedwigaeth, ond y brif broblem yw llygredd amaethyddol.

Prin yw'r cytundebau rhyngwladol yn ymdrin â chyrsiau dŵr heblaw am yr hyn sy'n bodoli mewn cyd-destun trawsffiniol ar lefel fyd-eang nad yw'n berthnasol yng nghyd-destun Cymru/Lloegr. Y ddeddfwriaeth fwyaf arwyddocaol yn yr UE yw'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (PDF 858KB)**. Mae'r WFD yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu system gynllunio weinyddol i Rheoli Basnau Afonydd. Rhaid i gynlluniau Rheoli Basn Afon nodi rhaglen o fesurau gyda'r nod cyffredinol o wireddu 'statws ecolegol da'. Fel arfer, mae 'safonau' yn gysylltiedig â mesurau penodol ac adlewyrchir hyn yng nghyd-destun rheoleiddio cemegau sy'n berthnasol i reoli tir yn gynaliadwy, megis rheoleiddio plaladdwyr. Mewn cyferbyniad, mae gosod amcanion ar gyfer ansawdd afonydd yn dechnegol gymhleth ac, i ryw raddau, yn gysylltiedig ag amodau lleol. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn nodi egwyddorion sylfaenol system rheoli basn afon ac fe'i hategir gan fecanwaith sefydliadol sy'n cynnwys arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill er creu **Strategaeth Weithredu Gyffredin**.

Mae llifogydd hefyd yn faes lle mae'r UE wedi cyflwyno deddfwriaeth yn ddiweddar, ac mae'r Strategaeth Weithredu Gyffredin o dan y WFD hefyd yn cefnogi gwaith o dan y **Gyfarwyddeb Llifogydd**. Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gyflwyno system reoli sylfaenol. Mae hyn yn golygu cynnal asesiadau perygl llifogydd rhagarweiniol o fasnau afon i nodi ardaloedd 'risg uchel' a ddylai fod yn destun cynllunio rheoli. Mae cynnwys sylfaenol angenrheidiol y cynlluniau hyn hefyd wedi'i nodi mewn Atodiad i'r Gyfarwyddeb.

Mae'r system o **Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)** yn bwysig er mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol unrhyw gynlluniau a phrosiectau, gan gynnwys datblygu adeiladau. Trafodir EIA yma yng nghyd-destun datblygu adeiladau ar orlifdiroedd ac unrhyw gynlluniau neu brosiectau sy'n effeithio ar adnoddau dŵr. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd yn arbennig o berthnasol i arferion coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Mae EIA yn fodd hanfodol o sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch defnydd tir ac i ganiatáu trefn ataliol yn hyn o beth. EIA yw un o'r ychydig

offerynnau penodol sy'n ofynnol yn ôl **Egwyddorion datblygu cynaliadwy Rio** a lofnodwyd yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu, yn 1992. Fe'i mabwysiadwyd hefyd gan lawer o wledydd ledled y byd.

Mae'r Gyfarwyddeb EIA wedi'i diwygio sawl gwaith yn ei hanes hir i gynnwys mwy o fanylion am y drefn mewn ymateb i wybodaeth gynyddol am arferion rheoli effeithiol. Serch hynny, o fewn y paramedrau hyn, bu lle i ddisgresiwn ar lefel aelod-wladwriaethau ac mae Cymru wedi cael y cyfle i ddarparu dulliau datganoledig (gweler Atodiad 3). Fodd bynnag, nid yw'r system heb feirniadaeth. Er enghraifft, mae dibynnu ar y datblygwr i gyflawni'r asesiad, a fu'n ofyniad allweddol yn y system ers ei chyflwyno, yn gallu arwain at ragfarn sylfaenol o blaid datblygu.11

Mae'r drafodaeth hon wedi amlygu pwysigrwydd y WFD wrth greu system i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth mewn ecosystemau dŵr croyw. Mae hefyd yn dangos yr angen i gydlynu fframweithiau cyffredin yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, o ran llifogydd a rheoli dalgylchoedd. Efallai mai'r Gyfarwyddeb EIA yw'r enghraifft orau i ddangos fel y gall fframwaith cyffredin gefnogi asesu blaenorol fel offeryn rheoli.

Er gwaethaf arwyddocâd arfer amaethyddol i ansawdd afonydd, er hwylustod caiff ei drafod yng nghyd-destun rheoli ucheldiroedd.

## Rheoli pridd yn well

**Mae pridd yn arbennig o bwysig** yng nghyd-destun rheoli tir yn gynaliadwy. Mae rheoli pridd yn hanfodol i storio carbon (wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd), ansawdd dŵr a chynhyrchiant amaethyddol. Er hynny, dim ond dechrau cael ei gydnabod fel maes sydd angen sylw penodol y mae pridd.

Nid dim ond yng Nghymru y mae ansawdd pridd yn flaenoriaeth; bu'n destun pryder i'r UE ers peth amser. Cytunodd yr UE ar **strategaeth ar gyfer diogelu pridd** yn 2006. Roedd hyn yn cynnwys cynnig am **Gyfarwyddeb newydd** a fyddai'n: nodi egwyddorion allweddol amddiffyn pridd; cyflwyno system asesu blaenorol; ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr tir weithredu mewn modd rhagofalus; nodi meysydd risg penodol; ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gymryd camau i gyfyngu ar gyflwyno sylweddau peryglus i'r pridd; a sefydlu rhestr o safleoedd halogedig. Nid yw'r Gyfarwyddeb hon wedi'i derbyn eto felly mae'r fframwaith cyffredin ar lefel yr UE ar hyn o bryd yn dibynnu ar y strategaeth polisi. Fodd bynnag, mae'n enghraifft dda o'r ffordd y gallai fframwaith

11 Gweler ymhellach Jane Holder Environmental Assessment: The Regulation of Decision Making (OUP, 2004).

rheoleiddio fynd i'r afael â her sydd newydd ei hadnabod yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Defnyddio ein hucheldiroedd i ddarparu manteision lluosog

Mae'r ucheldiroedd yn cynnwys mynyddoedd, gweundir a rhostir ac maent yn nodwedd amlwg o gynefinoedd Cymru. Maent yn arbennig o bwysig o ran rheoli carbon pridd a rheoleiddio dŵr. Mae **'ucheldiroedd' yn derm (PDF 477KB)** sy'n gwahaniaethu rhwng tir uwch, ffridd (yr ymylon ucheldirol sy'n cwmpasu tir rhwng yr iseldiroedd a reolir yn ddwys a'r rhostir agored) a rhostir yr iseldir. Mae amrywiaeth y cynefinoedd yn y ffridd yn agored i niwed yn sgil newid yn yr hinsawdd a defnydd tir tra bo dyddodi nitradau a phori yn broblem arbennig i rostir yr iseldir. Mae hyn yn amlygu'r ffaith na ellir disgrifio'r 'ucheldiroedd' mewn un ffordd yn unig. Serch hynny, mae'n amlwg fod newid yn yr hinsawdd ac arfer amaethyddol yn fygythiadau allweddol ac yn cael eu trafod yn y cyd-destun hwn. Mae hynny er gwaethaf y ffaith hefyd fod y rhain yn berthnasol i bob un bron o'r meysydd 'cyfle' a nodwyd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae ucheldiroedd hefyd yn ardaloedd pwysig ar gyfer cynefinoedd sydd mewn perygl, yn enwedig mawnogydd a fydd hefyd yn cael eu trafod yma. **Daeth adroddiad SoNaRR i'r casgliad (PDF 504KB)** fod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ledled Cymru mewn cyflwr anffafriol at ei gilydd.

Y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yw'r ddwy her fwyaf i 'ddatblygu cynaliadwy' yn fyd-eang. Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (80.9KB)** wedi creu targedau sydd wedi gyrru gweithredu ar draws yr UE a'r DU. Mae newid yn yr hinsawdd yn faes lle mae pwysigrwydd dull llywodraethu aml-lefel wedi cael ei gydnabod ers tro. Cytunir ar dargedau Newid yn yr Hinsawdd ar lefel yr UE, ond mae'r drefn yn caniatáu i lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig osod targedau o fewn fframwaith rheoleiddiol.[12] Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn nod eithriadol o gymhleth a gefnogir gan **ystod eang o fesurau mewn meysydd polisi gwahanol**, yn canolbwyntio ar leihau carbon. Serch hynny, mecanweithiau economaidd yw'r gyrwyr allweddol yn aml. Mae **Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE** yn arwyddocaol iawn yn hyn o beth;

12 Mae targedau cyffredinol y DU er lleihau allyriadau domestig, a wreiddiwyd yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, yn fwy uchelgeisiol na'r rhai sy'n deillio o'r UE. Cyflwynwyd targedau statudol i Gymru gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

ond bu cryn le hefyd i fabwysiadu gwahanol ddulliau, yn cynnwys darpariaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllidebu carbon.[13]

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth wedi gosod targed i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Mae'r UE a'r DU wedi mabwysiadu hyn a thargedau manylach eraill mewn fframwaith polisi;[14] ac mae'r llywodraethau datganoledig yn y DU yn cydweithredu wrth ddatblygu fframwaith eang i weithredu'r Confensiwn. [15] Rhaid cyrraedd targedau bioamrywiaeth gan ddefnyddio ystod o offerynnau, ond y mecanwaith canolog yw'r system reoli ar gyfer rhywogaethau sydd mewn perygl a chynefinoedd bregus o dan gyfraith yr UE a'r DU. Cafodd **Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE** ei gweithredu ochr yn ochr â mesurau a oedd yn bodoli o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i ddarparu gwe gymhleth o ddarpariaethau. Y gwahaniaeth pwysicaf o ran amddiffyniad yr UE a'r DU yw'r system o asesu blaenorol sy'n weithredol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a ddiogelir o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE, a mabwysiadu 'nod' neu 'safon' ganolog o gynnal y safleoedd hynny mewn 'statws cadwraeth ffafriol'. Mae'r gwahaniaethau hyn yn broblem o safbwynt tryloywder mewn cyfraith cadwraeth natur a gallai hwn fod yn faes o ddiddordeb wrth ddatblygu Fframweithiau Cyffredin i'r DU yn y dyfodol, ond, yn y cyfamser, bydd yn bwysig cynnal y lefelau amddiffyn presennol.

Caiff amaethyddiaeth nifer o effeithiau pwysig ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae yna gyfreithiau UE penodol i fynd i'r afael â bygythiadau gan lygryddion, megis plaladdwyr a gwrteithiau. Mae rheoleiddio cemegau yn creu safonau clir sy'n cael effaith uniongyrchol ar fasnach ac mae'n hawdd eu cynnwys mewn trefn orfodadwy. Ymdrinnir â nitradau **drwy system reoli fwy cymhleth** sydd, er hynny, yn caniatáu ar gyfer disgresiwn ar lefel y DU a'r rhanbarth. Efallai mai'r sbardun pwysicaf mewn arferion amaethyddol yw'r cymorthdaliadau a ddarperir ar hyn o bryd o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Ar hyn o bryd mae hyn yn darparu ar gyfer cynhyrchu bwyd yn ogystal â gofalu am yr amgylchedd naturiol a chymunedau gwledig. Mae llywodraethau'r

13 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

14 Mae nifer o dargedau mwy penodol eraill a bennir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth sy'n rhan o'i Gynllun Strategol ar gyfer 2011-2020, y cyfeirir atynt fel targedau Aichi. Mae'r diffyg targedau statudol mewn perthynas â bioamrywiaeth yn bryder allweddol i grwpiau amgylcheddol. Gweler, er enghraifft, y drafodaeth yng nghyd-destun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Bil yr Amgylchedd Cymru: Adroddiad Cyfnod 1 (2015) 32-33

15 Fframwaith Bioamrywiaeth ôl-2010 y DU. Cyhoeddwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a Defra ar ran Grŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad (JNCC, 2012).

DU a Chymru wedi nodi eu bod am ail-ffocysu'r drefn ariannu ar gyfer amaethyddiaeth ar 'nwyddau cyhoeddus'. Bydd cynnwys materion sy'n ymwneud â 'diogelu adnoddau naturiol' a dealltwriaeth o sut y bydd hyn yn cefnogi 'nwyddau cyhoeddus' eraill yn hanfodol wrth ddatblygu cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae llawer o ddadlau ynghylch y diffiniad o 'nwyddau cyhoeddus'.[16]

Gallai Fframwaith Cyffredin i’r DU ddarparu amlinelliad o dargedau a pharamedrau allweddol ar gyfer y gyfundrefn cymorthdaliadau amaethyddol, a chaniatáu disgresiwn i’r cyfundrefnu datganoledig. Fodd bynnag, mae'r enghraifft hon yn bwysig i ddangos y problemau o ran cytuno ar draws y gwledydd datganoledig ar ddim ond nodau sylfaenol mewn Fframweithiau Cyffredin i’r DU.

# 6. Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi dadlau y dylem ystyried mabwysiadu egwyddor o 'ddiogelu adnoddau naturiol' fel sail ar gyfer datblygu Fframweithiau Cyffredin i’r DU sy'n cefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn wahanol iawn i'r drefn sydd wedi’i mabwysiadu ar hyn o bryd yn Natganiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion nad yw ond yn cyfeirio at ymrwymiadau rhyngwladol a rheoli adnoddau cyffredin fel materion gweithredol. Yng nghyd-destun rheoli tir yn gynaliadwy, nid yw mynd i'r afael â heriau fel ansawdd pridd, cynaliadwyedd coedwigaeth a chyflwr bioamrywiaeth yn bryderon trawsffiniol amlwg. Eto, dylai amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn ei holl ffurfiau fod yn gonsyrn i bawb ohonom. Mae effeithiau dynol ac ymateb ecosystemau yn fater cymhleth ac mae 'gwybodaeth ecosystemau' yn hanfodol er rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys 'gwybodaeth wyddonol' ac 'arfer rheoli'. Gall dull llywodraethu aml-lefel o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy hybu datblygu a chyfnewid syniadau yn y cyswllt hwn.

Mae Llywodraeth y DU wedi cymhwyso'r egwyddorion yn Natganiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion i feysydd polisi presennol sy'n berthnasol i reoli tir yn gynaliadwy yn ei Dadansoddiad Fframwaith. Mae'r ffocws ar fasnach, rhwymedigaethau rhyngwladol ac 'adnoddau cyffredin' wedi golygu mai nifer fach o feysydd sy’n cael eu gweld fel rhai lle mae angen fframwaith rheoleiddio cyffredin (Atodiad 1). Heb

16 Gweler yr ymdriniaeth yn Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit (Llywodraeth y DU, 2018) Cm 9577, td.8 Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru 'Dyfodol amaethyddiaeth a rheoli tir' Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig 21 Mawrth 2018.

esboniad llawn o'r modd y mae egwyddorion Datganiad y Cyd-bwyllgor wedi cael eu cymhwyso, mae'n anodd bod yn sicr o'r rhesymeg o blaid y dewisiadau a wnaed mewn unrhyw amgylchiadau unigol. Mae canolbwyntio ar 'ddiogelu adnoddau naturiol' yn amlygu pwysigrwydd Fframweithiau Cyffredin i’r DU yn y rhan fwyaf o feysydd sy'n berthnasol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gellir dadlau hefyd y dylai'r rhain fod ar ffurf fframweithiau cyfreithiol. Mae cyfraith yn fanteisiol wrth ddarparu rhwymedigaethau gorfodadwy ond cyfeirir ati weithiau fel 'erfyn di-awch' wrth fynd i'r afael â materion cymhleth o ran diogelu adnoddau naturiol. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddebau'r UE wedi'u cynllunio'n benodol i ddarparu cydbwysedd rhwng cyflawni amcanion canolog a chaniatáu disgresiwn i aelod-wladwriaethau wrth wneud hynny.

Mae fframweithiau'r UE wedi bod yn ddadleuol yn wleidyddol weithiau ac wedi cymryd llawer o flynyddoedd i’w datblygu, ond yn sicr maent wedi creu fframweithiau pwysig o safonau ac arferion rheoli i helpu Cymru i ymateb i'r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r ddadl ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar 'safonau' mewn fframweithiau cyffredin, ond mae'r adroddiad hwn wedi dangos fel y mae Cyfarwyddebau'r UE wedi bod yn bwysig yn sefydlu egwyddorion sylfaenol y rheoli. Os derbynnir y cynigion presennol yn y Dadansoddiad Fframwaith ar arferion rheoli mewn sawl agwedd ar EIA, ni fydd rheoli basnau afonydd, rheoli perygl llifogydd a diogelu cynefinoedd mwyach yn rhan o fframwaith rheoleiddio. Gallai fod goblygiadau pwysig iawn i hyn o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru ac ar draws y DU.

Dim ond y cam cyntaf yw cytuno ar Fframweithiau Cyffredin i’r DU ar ddiwrnod gadael yr UE. Bydd y broses o ddatblygu'r fframweithiau hynny yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn amddiffyn yr amgylchedd a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy yng Nghymru. Mae Cyfarwyddebau'r UE yn aml yn cynnwys strwythurau sefydliadol sy'n sicrhau datblygiad parhaus y fframweithiau hynny yn ôl gwybodaeth wyddonol gynyddol a phrofiad rhanddeiliaid.[17] Bydd creu mecanwaith i ddatblygu a choladu'r dystiolaeth berthnasol yn hanfodol. Gellid cyflawni hyn fesul sector neu drwy roi'r cyfrifoldebau hyn i sefydliad sy'n cefnogi creu Fframweithiau Cyffredin i’r Deyrnas Unedig.

Bydd y drefn a argymhellir yn golygu bod angen dealltwriaeth a rennir o 'ddiogelu adnoddau naturiol', ac ymrwymiad i hynny, ymhlith llywodraethau ledled y DU. Hefyd, bydd angen mecanwaith sefydliadol cadarn ar gyfer cytuno ar y fframweithiau hynny yn unol â’r buddiannau hynny, a bydd gofyn eu cydbwyso’n ofalus yn erbyn ystyriaethau gwleidyddol a masnachol. Felly, mae cydweithrediad yn hanfodol wrth roi unrhyw system lywodraethu aml-lefel ar waith ond bydd yn

17 Efallai mai'r enghraifft orau yw'r Strategaeth Gweithredu Gyffredin o dan y WFD.

arbennig o bwysig yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rhoddwyd llawer o sylw, a hynny’n briodol, i'r mecanweithiau er datblygu fframweithiau cyffredin ôl-Brexit a'u gweithredu ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys trafod rheolau gweithdrefnol priodol.[18] Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y materion strwythurol y dylid mynd i'r afael â nhw yn hytrach na'r trefniadau manwl rhyng-sefydliadol ar gyfer cytuno ar Fframweithiau Cyffredin i’r DU. Serch hynny, dim ond os oes gan lywodraethau ymrwymiad gwirioneddol i gyd-gynhyrchu Fframweithiau Cyffredin i’r DU i gefnogi 'diogelu adnoddau naturiol' y bydd y drefn a argymhellir yn gweithio.

Yn olaf, mae gan gasgliadau'r papur hwn oblygiadau sylweddol i'r trafodaethau cyfredol ynglŷn ag egwyddorion amgylcheddol yr UE a llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit. Ar hyn o bryd, cyflawnir nod cyffredinol yr UE o 'lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd' drwy fabwysiadu rhai egwyddorion amgylcheddol craidd. Mae egwyddor ataliol, ragofalus, y llygrwr sy’n talu, wedi’i chynnwys mewn cyfraith ryngwladol ac yn yr UE. Mae'r ‘egwyddor integreiddio’ hefyd yn cael ei hargymell fel egwyddor graidd.[19] Ynghyd â'r egwyddor ataliol, cefnogir hyn yn gryf gan y syniad o Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIA). Hefyd, mae egwyddor cyfranogiad yn hanfodol i Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol a llawer o brosesau penderfynu eraill yng nghyfraith yr UE.[20] Ar hyn o bryd mae'r ddadl am lywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit yn canolbwyntio ar faterion atebolrwydd a gorfodi cyfraith yr UE. Mae mecanweithiau adrodd yn bwysig i ddarparu atebolrwydd, ond mae'r adroddiad hwn wedi amlygu fel y mae gofynion adrodd hefyd yn cefnogi datblygu a chyfnewid gwybodaeth wrth greu fframweithiau cyffredin effeithiol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

---

[18] Gweler, er enghraifft, y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Athro Colin Reid i Bwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir, Senedd yr Alban, 23 Ionawr, 2018.

[19] Gweler tystiolaeth Maria Lee i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru 10fed Mai 2018.

[20] Mae Confensiwn Aarhus wedi bod yn arbennig o bwysig yn hyn o beth. Aarhus Convention on Access to Information, Public Participation in Decision-Making and Access to Justice in Environmental Matters (a fabwysiadwyd 25 Mehefin 1998 gan ddod i rym 30 Hydref 2001) 2161 UNTS 447.

# Atodiad 1: Y Dadansoddiad Fframwaith a Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r darpariaethau yn y Dadansoddiad Fframwaith sy'n berthnasol i Reoli Tir yn Gynaliadwy a'u categori o ran 'Dim Gweithredu pellach'; 'Fframwaith Polisi Cyffredin'; neu 'Fframwaith Cyfreithiol'. Ynghyd â hyn rhoddir rhyw syniad o ganlyniad mabwysiadu'r dull sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad ar sail yr egwyddor o 'ddiogelu adnoddau naturiol'. Mae'r adroddiad hefyd yn dadlau'n gryf na fydd hyn ond yn briodol os gellir datblygu mecanwaith cadarn i alluogi llywodraethau'r DU i gydweithio i ddatblygu'r fframweithiau hyn; a bod hyn yn cael ei gefnogi gan system i ddatblygu 'gwybodaeth ecosystemau'.

- Y drefn ar hyn o bryd yn y Dadansoddiad Fframwaith (cod: **print trwm**)
- Y drefn a argymhellir ar sail 'Egwyddor Diogelu Adnoddau Naturiol' (cod: *print italig*)

## Coedwigaeth

| | |
|---|---|
| Polisïau a rheoliadau yn ymwneud â chynhyrchu coed a rheoli coetiroedd. | |
| **Dim gweithredu pellach** | *Fframwaith Polisi a Safon Goedwigaeth y DU (fel y mae ar hyn o bryd)* |

## Ansawdd a rheolaeth dŵr

| | |
|---|---|
| Polisïau a rheoliadau (yn bennaf Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE a Chyfarwyddeb Dŵr Yfed yr UE) sy'n anelu at wella statws ecolegol a chemegol, yn cynnwys statws afonydd y DU. | |
| **Dim gweithredu pellach** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Polisïau a rheoliadau rheoli perygl llifogydd (yn bennaf Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE) sy'n anelu at leihau'r perygl lifogydd. | |
| **Dim gweithredu pellach** | *Fframwaith Cyfreithiol* |

## Bioamrywiaeth

| | |
|---|---|
| Polisïau a safonau cyffredin sy'n cwmpasu cadwraeth cynefinoedd daearol y DU yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol, yn cynnwys y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd. | |
| **Polisïau Cyffredin** | *Fframwaith Cyfreithiol* |

## Newid yn yr Hinsawdd

| | |
|---|---|
| Mae Cyfarwyddebau 2003/87/EC yn sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyon tŷ gwydr. | |
| **Fframwaith Cyfreithiol** | *Fframwaith Cyfreithiol* |

## Asesiad Amgylcheddol Strategol, EIA a Defnydd Tir

| | |
|---|---|
| Y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol | |
| **Dim gweithredu pellach** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (UE) yng nghyd-destun Coedwigaeth | |
| **Dim gweithredu pellach** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Elfennau o'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol a'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n cwmpasu defnydd tir gwledig. | |
| **Dim gweithredu pellach** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu a llinellau uwchben (Deddf Cynllunio 2008). | |
| **Polisi Cyffredin** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | |
| **Polisi Cyffredin** | *Fframwaith Cyfreithiol* |

## Amaethyddiaeth

| | |
|---|---|
| Polisïau a Rheoliadau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE sy'n cwmpasu Colofn 1 (incwm a chymorth marchnad); Colofn 2 (twf gwledig, amaeth-amgylchedd, grantiau neu wasanaethau cynhyrchiant amaethyddol a grantiau trosi a chynnal organig); a materion trawsbynciol, yn cynnwys trawsgydymffurfio, cyllid a rheolaethau. | |
| **Fframweithiau Cyfreithiol** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Rheoliadau sy'n darparu safonau cyffredin ar gyfer cynhwysion cyfansoddiadol, labelu, pecynnu, samplu a dadansoddi gwrteithiau. Mae'r DU hefyd wedi ymuno â nifer o gytundebau rhyngwladol (ee Protocol Gothenburg) a chytundebau'r UE (y Gyfarwyddeb Nenfydau Cenedlaethol) yn ymwneud â rheoleiddio gwrtaith. | |
| **Fframweithiau Cyfreithiol** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Rheoliadau'r UE ar gynhyrchion diogelu planhigion (ee plaladdwyr). | |
| **Fframweithiau Cyfreithiol** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Rheoleiddio gweithgynhyrchu, awdurdodi a gwerthu a defnyddio cynnyrch cemegol yn bennaf drwy reoleiddio REACH (Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau) ond hefyd yn cynnwys: Llygryddion Organig Parhaus (POPs). | |
| **Fframweithiau Cyfreithiol** | *Fframwaith Cyfreithiol* |
| | |
| Rheoliadau sy'n llywodraethu awdurdodi a defnyddio plaladdwyr a'r lefelau gweddillion uchaf mewn bwyd, a fframwaith ar gyfer gweithredu ar ddefnyddio plaladdwyr yn gynaliadwy. | |
| **Fframweithiau Cyfreithiol** | *Fframwaith Cyfreithiol* |

# Atodiad 2: Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Sybsidiaredd yn yr UE

Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r ffordd y mae'r egwyddor o sybsidiaredd wedi gweithredu yn yr UE yng nghyd-destun Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'n cynnwys cyfeiriad at ymateb Aelod-wladwriaethau i gynigion gweithredu'r UE; ymagwedd y Llys Cyfiawnder wrth gymhwyso'r egwyddor; a, chyfiawnhad Comisiwn yr UE o ran mabwysiadu mesurau yn y maes hwn.

## Cydberthynas a'r Aelod-wladwriaethau

Mae a wnelo enghraifft ddiweddar o Aelod-wladwriaeth yn cwestiynu cynnig am ddeddfwriaeth ar sail sybsidiaredd â rhywogaethau ymledol (Cynnig ar atal a rheoli cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron ymledol (COM (2013) 620)). Arweiniodd hyn at farn resymedig gan Bundesrat Awstria ar sybsidiaredd. Roedd y Bundesrat yn pryderu bod Erthygl 10 o'r cynnig - a'i gwnâi'n ofynnol i aelod-wladwriaethau weithredu yn erbyn rhyddhau rhywogaethau estron ymledol yn fwriadol - yn berthnasol i rywogaethau nad oeddent yn frodorol i holl arwynebedd yr Undeb, ond i'r diriogaeth genedlaethol. Yn ei ymateb, dadleuodd y Comisiwn fod yr ymateb hyd yn hyn i rywogaethau estron ymledol yn dameidiog ac yn annigonol, a bod angen ymateb ar lefel yr Undeb felly. Haerai'r Comisiwn nad oedd y ffaith na ellid cymhwyso'r mesur yn unffurf ar draws yr Undeb yn golygu nad oedd angen am ymateb gan yr Undeb.

## Sybsidiaredd a'r Llys Cyfiawnder

Ychydig iawn o achosion sydd wedi adolygu sybsidiaredd, ac mae llai fyth wedi cyffwrdd â materion sybsidiaredd a pholisi amgylcheddol. Enghraifft yw *Gweriniaeth Ffederal yr Almaen v y Comisiwn Ewropeaidd* (Achos T-28/16) a glywyd gan y Llys Cyffredinol ym mis Ebrill 2017. Roedd a wnelo hyn ag anghydfod rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a'r Almaen ynghylch y meini prawf dethol ar gyfer "gwaith cyfuno tir ac adnewyddu pentrefi" o dan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Dadleuai'r Almaen fod y Comisiwn yn torri egwyddor sybsidiaredd drwy ymyrryd ag ymreolaeth drefniadol yr Aelod-wladwriaethau a'r bwrdeistrefi ym maes cynllunio gofodol. Dyfarnodd y Llys fod angen i'r Comisiwn, fel y corff sy'n gyfrifol am gyllideb yr UE, fod â'r gallu i gadarnhau a oedd rhwymedigaethau a osodwyd fel amodau er derbyn cymorth ariannol o dan y gronfa hon wedi cael eu cyflawni. Nid oedd y Llys yn cytuno â'r Almaen fod y Comisiwn wedi ymyrryd yn ei meysydd cymhwysedd ac o ganlyniad gwrthododd y ple hwn.

## Sybsidiaredd a'r Comisiwn Ewropeaidd

Ers cyflwyno gofynion mwy llym i gyfiawnhau gweithredu ar lefel yr UE o dan egwyddor sybsidiaredd, mae gofyn i Gomisiwn yr UE ddatgan ei resymau yn llawn. Mae'r gwaith diweddar yn datblygu Cynnig am Gyfarwyddeb er Diogelu Pridd yn enghraifft o hyn. Amlinellir rhesymau'r UE dros weithredu fel a ganlyn:

- Gall dirywiad pridd mewn un aelod-wladwriaeth neu ranbarth gael canlyniadau trawsffiniol;
- Mae gwahaniaethau eang rhwng cyfundrefnau gwarchod pridd cenedlaethol. Mewn rhai achosion gall y rhain osod rhwymedigaethau gwahanol iawn ar weithredwyr economaidd sy'n effeithio ar y farchnad fewnol;
- Mae dirywiad pridd yn effeithio ar feysydd eraill sydd o bwys o ran diogelu'r amgylchedd, y mae gan yr UE gyfraith ar eu cyfer;
- Mae cael egwyddorion cyffredin i ddiffinio 'defnydd cynaliadwy o bridd' yn help i fynegi agendâu ymchwil ar lefel genedlaethol a lefel yr UE (a thrwy hynny wneud defnydd mwy effeithlon o gronfeydd ymchwil a datblygu); a
- Dim ond naw aelod-wladwriaeth sydd â deddfwriaeth benodol ar amddiffyn pridd.

(Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb gan Senedd Ewrop a'r Cyngor i sefydlu fframwaith ar gyfer amddiffyn pridd, sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2004/35 / EC Para 320-327).

# Atodiad 3: Gweithredu'r Gyfarwyddeb EIA yng Nghymru a Lloegr

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r modd y gweithredwyd y Gyfarwyddeb EIA yng Nghymru a Lloegr drwy fabwysiadu rheoliadau ar y cyd ac ar wahân. Mae hyn yn dangos y posibiliadau o ran ymateb i wahaniaethau sectoraidd yn y ddwy wlad o fewn y fframwaith sylfaenol a ddarperir gan Gyfarwyddeb yr UE.

## Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr

### Lloegr

**Cyffredinol**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017/571

**Penodol**

Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Lloegr) (Rhif 2) 2006/2522 (gwelliant 2017/593)

### Cymru

**Cyffredinol**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017/567

**Penodol**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009/3342

Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017/565

### Cymru a Lloegr

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017/572

Rheoliadau Gwaith Trydan (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017/580

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003/164

Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999/1783 (Cymru a Lloegr)

Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999/2228

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon